# Pwyllgor Adolygu Gweithredol

**06 Mawrth 2024**

Yn Bresennol: Y Cynghorydd SL Hancock, Y Cynghorydd R Jordan, Mr GA Jones, Dr RM Plummer, Y Cynghorydd M Wiggins, Y Cynghorydd A Wilcox a’r Cynghorydd C Williams.

Hefyd yn bresennol: Tegryn Jones (Prif Weithredwr), Tomos Jones (Archaeolegydd Cymunedol), Caroline Llewellyn (Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd), Jamie Taylor (Swyddog Prosiect Awyr Dywyll) a Mair Thomas (Swyddog Perfformiad a Chydymffurfiaeth).

(Cyfarfod Rhithiol: 10.00yb – 11:05yb)

**1. Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth Mrs J James a’r Cynghorydd P Morgan.

**2. Datgan Buddiannau**

Gwnaeth Dr R Plummer ddatganiad cyffredinol fel Aelod o Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru ac fel Ymddiriedolwr Plantlife ac Aelod o Gymdeithas Melinau Cymru. Fodd bynnag arhosodd yn y cyfarfod a chymryd rhan lawn yn y trafodaethau.

**3. Cofnodion**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 6ed o Ragfyr 2023 i’w cadarnhau a’u dilysu.

Ar gynnig Dr R Plummer, a eiliwyd gan y Cynghorydd R Jordan, **PENDERFYNWYD** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 6ed o Ragfyr 2023.

**4. Log Gweithredu a Materion yn Codi**

Nododd yr Aelodau y log gweithredu ac awgrymodd y Cadeirydd, o ran cam gweithredu 955, y dylid hefyd gynnwys gwybodaeth am feiciau trydan yn yr adroddiad sydd yn yr arfaeth.

**Nodwyd.**

**5. Adroddiad Archaeoleg Blynyddol 2022/23**

Croesawodd y Cadeirydd yr Archaeolegydd Cymunedol a gyflwynodd adroddiad oedd yn amlinellu gwaith yr Awdurdod ar faterion archaeoleg yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23. Roedd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth gefndir, gwybodaeth oedd yn ymwneud â rôl Archaeoleg yn y Cynllun Rheoli (2020-2024), cyfraniad archaeoleg i'r Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau (2022/23) ac Amcanion Llesiant yr Awdurdod. Roedd y cyflwyniad

hefyd yn rhoi manylion y rhaglen waith o weithgareddau i’w cyflawni yn 2022/23, ac yn olaf, y camau nesaf ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

Roedd yr adroddiad yn manylu ar y Cynllun Gwarchod Treftadaeth a sefydlwyd i atal, monitro ac ennyn ymwybyddiaeth o droseddau treftadaeth. Nodwyd bod 22 o achosion o droseddau treftadaeth wedi’u cyflawni yn ystod blwyddyn ariannol 2021/22, gan gynnwys difrod troseddol, tanau bwriadol ac aflonyddwch, ffigur oedd yn peri pryder i nifer o’r Aelodau. Eglurodd y Swyddog bod swyddogion a gwirfoddolwyr yn cynnal ymweliadau safle o bryd i'w gilydd er mwyn ceisio atal troseddau treftadaeth. Nodwyd bod troseddau treftadaeth yn aml yn cael eu cyflawni o ganlyniad i ddiffyg ymwybyddiaeth, ac roedd nifer o ddigwyddiadau yn ceisio mynd i'r afael â hynny.

Mewn ymateb i ymholiad gan yr Aelodau, eglurodd y Swyddog bod yr acronym a geir o dan eitem 19 o'r adroddiad, 'CUPHAT', yn cynrychioli’r prosiect ‘Yr Ucheldiroedd Arfordirol: Treftadaeth a Thwristiaeth'.

Roedd lluniau o’r Colomendy ym Maenorbŷr cyn ac ar ôl clirio’r gordyfiant wedi'u cynnwys yn yr adroddiad, a holodd Aelod a allai'r ffaith bod y colomendy bellach yn fwy gweladwy arwain at fwy o droseddau treftadaeth ar y safle. Cadarnhaodd y Swyddog bod angen gwneud y gwaith clirio prysgwydd oherwydd gordyfiant eiddew oedd yn cael effaith andwyol ar fframwaith y colomendy. Ychwanegwyd bod y tîm yn ymwybodol iawn o’r angen am sicrhau cydbwysedd rhwng hygyrchedd i'r cyhoedd a diogelu safleoedd treftadaeth sensitif. Cadarnhaodd y Swyddog, o ganlyniad i hyn, bod y tîm yn dewis peidio â hyrwyddo safleoedd ar-lein at ddibenion cadwraeth o bryd i'w gilydd.

Gofynnodd y Cadeirydd a oedd gan y tîm unrhyw fwriad i gynnig digwyddiadau rhithiol yn y dyfodol. Mewn ymateb, cadarnhaodd y Swyddog bod y tîm wedi cynnal rhith-ddigwyddiadau yn y gorffennol a'u bod wrthi yn ceisio cyfleoedd i gynnal mwy o’r cyfryw ddigwyddiadau yn y dyfodol. Cydnabuwyd bod digwyddiadau rhithiol yn cael effaith gadarnhaol yn sgîl eu potensial i gyrraedd mwy o grwpiau cymunedol.

**Nodwyd.**

**6. Adroddiad ar y Perfformiad Amcanion Llesiant**

Croesawodd y Cadeirydd y Cydlynydd Perfformiad a Chydymffurfiaeth a gyflwynodd adroddiad ar y Perfformiad Amcanion Llesiant oedd yn manylu ar y camau ymlaen a gymerwyd yn erbyn y dangosyddion/ prosiectau/rhaglenni gwaith blaenoriaeth am y cyfnod yn diweddu 31 Rhagfyr 2023. Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys ystadegau chwarter 3 ar rai o’r mesurau.

Roedd yr adroddiad perfformiad yn nodi perfformiad yr Awdurdod yn erbyn ei bedwar o Amcanion Llesiant (Cadwraeth, Hinsawdd, Cysylltiad a

Chymunedau) a nodir yn ein Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau 2023/24 – 2026/27.

Dywedodd y Swyddog mai'r adroddiad oedd gerbron yr Aelodau oedd y fersiwn cyntaf o'r adroddiad perfformiad diwygiedig. Eglurwyd bod yr adroddiad yn fwy cryno gan fod yr adroddiadau ar wahân wedi'u datblygu ar gyfer gweithio mewn partneriaeth a monitro sicrwydd. Fodd bynnag ychwanegwyd bod yr adroddiad yn cynnwys nifer o fesurau newydd.

Cadarnhaodd y Swyddog, yn dilyn adborth yr Aelodau, y byddai Pwyllgorau Adolygu Gweithredol yn y dyfodol yn cael eu seilio ar thema pob un o'r pedwar Amcan Llesiant o ddechrau'r flwyddyn ariannol nesaf.

Dywedwyd bod nifer y sesiynau gwefru cerbydau trydan ym mannau gwefru APCAP wedi cynyddu o 5,437 yn 2022/23 i 7,020 yn 2023/34. Ychwanegodd y Prif Weithredwr bod ymchwil wedi dangos bod gan Sir Benfro fwy o fannau gwefru cerbydau nag unrhyw sir arall yng Nghymru a bod hyn wedi'i gyflawni drwy waith yr Awdurdod.

O ran cynllun yr adroddiad newydd, cafwyd trafodaeth ynglŷn â lefel newydd o atebolrwydd, allai fod yn anghytbwys, rhwng y Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol a'r Pwyllgor Adolygu Gweithredol o ganlyniad i'r adroddiadau ar wahân a ddatblygwyd i leihau maint y wybodaeth sy’n cael ei chynnwys yn yr Adroddiad Perfformiad. Sicrhaodd y Swyddogion yr Aelodau bod cynnig wedi'i wneud i newid ffurfwedd y Pwyllgorau fyddai yn mynd i'r afael â'r sefyllfa ac yn adfer atebolrwydd cyfartal.

**Nodwyd.**

## 7. Y Prosiect Awyr Dywyll

Croesawodd y Cadeirydd y Swyddog Awyr Dywyll, a roddodd gyflwyniad byr i roi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r Aelodau am y prosiect Awyr Dywyll a ariennir gan y gronfa SDF, oedd yn canolbwyntio ar yr hyn y gallai’r Awdurdod ei wneud i leihau effaith y goleuadau o’i adeiladau ei hun ac i gefnogi sefydliadau partner i wneud yr un peth. Roedd y cyflwyniad yn rhoi trosolwg byr o'r prosiect, y manylion achredu perthnasol, crynodeb o nodau'r prosiect, y camau nesaf, a hefyd y digwyddiadau ymgysylltu ar y prosiect. Roedd yr Aelodau yn cydnabod pa mor bwysig oedd y prosiect a chytunwyd bod angen llawer o waith i ennyn ymwybyddiaeth o effeithiau llygredd golau.

**Nodwyd.**

Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o’r Pwyllgor Adolygu Gweithredol a gynhaliwyd ar 12 Mehefin 2024 heb eu diwygio.